

# ADFER NATUR: SYNIADAU AR GYFER GWEITHREDU

## DARPARWYR TWRISTIAETH

**Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Sir Gaerfyrddin – mae ein hamgylchedd naturiol yn atyniad sylweddol i ymwelwyr.**

Mae llawer o'r twristiaid sy'n dod i Sir Gaerfyrddin yn gerddwyr brwd, yn bysgotwyr, yn wylwyr adar neu'n ymddiddori'n fawr mewn bywyd gwylt yn gyffredinol, ac mae hon yn sir fendigedig o ran bioamrywiaeth a phrofiadau yn yr awyr agored. Bydd gwybod beth sy'n tyfu, yn byw neu'n teithio trwy ein hafonydd, coedwigoedd, corsydd a dolydd yma nid yn unig yn eich helpu i farchnata eich busnes twristiaeth i ddarparu ymwelwyr, ond hefyd i wella'r profiad i ymwelwyr ar eu gwyliau.

Mae gan ddarparwyr llety ac atyniadau twristiaid botensial mawr i feithrin ymwybyddiaeth a rheoli ardaloedd ar gyfer bioamrywiaeth, yn enwedig o ystyried bod llawer ohonynt mewn ardaloedd gwledig.

### **Dyma'r modd y gallwch helpu:**

- Hyrwyddo'r llwybrau cerdded yn eich ardal
- Rhannu'r holl weithgareddau awyr agored amrywiol yn eich ardal – po fwyaf sydd gennych, y mwyaf tebygol y byddwch o apelio at bob aelod o'r teulu.
- Darparu gweithgareddau bywyd gwylt ar eich safle, megis noson ystlumod neu wyfynod, teithiau cerdded tywysedig ar y thema planhigion neu ffyngau, digwyddiadau bioblitz neu ddarparu gweithgareddau bywyd gwylt i blant
- Gallai atyniadau ymwelwyr droi lawntiau diflas yn laswelltiroedd llawn planhigion a phryfed peillio
- Annog ymwelwyr i rannu eu harsylwadau o ran planhigion a bywyd gwylt y maent yn dod ar eu traws yma, naill ai ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn llyfr sylwadau neu hyd yn oed ar ap ffôn sy'n anfon gwybodaeth i'n canolfan cofnodion bioamrywiaeth leol
- Gallai safleoedd mwy megis meysydd carafanau ystyried y modd y gellid rheoli neu wella ardaloedd ar gyfer bywyd gwylt yn rhan o gynllun rheoli ar gyfer y safle cyfan.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

**Partneriaeth Natur**  
SIR GÂR • CARMARTHENSHERE  
**Nature Partnership**



# DARGANFOD

Os ydych am ddarganfod pa fywyd gwyllt sy'n byw yn eich ardal chi, bydd gwefan Aderyn yn eich helpu. Gallwch fewnbynnu eich cod post a bydd yn dweud wrthyb beth sydd wedi'i gofnodi yn eich ardal, neu gallwch chwilio am rywogaethau penodol i weld pa mor brin neu gyffredin yw rhywbeth yng Nghymru. <https://aderyn.lercwales.org.uk>

Dewch i adnabod eich ardal leol i weld pa gyfleoedd sydd gennych i gyfoethogi'r bywyd gwyllt yno. Pa ddarn o laswelltir y gellid gadael iddo dyfu, ble y gallech blannu ychydig o goed, ble y gallech greu pwll dŵr neu bentwr coed?




# RHEOLI

Defnyddiwch arbenigedd y Partneriaethau Natur Lleol a'r sefydliadau sy'n rhan ohonynt: gallant helpu i roi cyngor ar ba gamau y gallech eu cymryd ar eich safle.

[Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin](#)

# CREU

Ceisiwch greu mosäig neu glytwaith o gynefinoedd cysylltiedig. Gallwch gweithio gyda nodweddion naturiol eich tir a chynorthwyo'r hyn sydd yno neu creuwch ardd bywyd gwyllt gyda planhigion peillwyr cyfeillgar..



# DIOGELU

Ceisiwch osgoi defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr a pheidiwch â defnyddio mawn – defnyddiwch ddewisiadau mawn eraill a helpwch i achub ein mawnogydd gwerthfawr. Cymerwch ran mewn prosiect bywyd gwyllt lleol a gwarchodwch eich safleoedd bywyd gwyllt lleol.

I gael rhagor o fanylion edrychwch ar:

- Darganfyddwch fwy am natur yn Sir Gaerfyrddin yn [Bioamrywiaeth](#)
- Cysylltwch â [Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk](mailto:Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) am ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer e-byst Newyddion Natur.
- Adnoddau ar gyfer [Gwella Bioamrywiaeth](#) – Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

